**1. Dim cynnydd mewn ffioedd angori yn 2010/11**

Mae *PMBHA* yn nodi'r canlyniadau ariannol llwyddiannus iawn a gyhoeddwyd gan Gyngor Gwynedd o ran yr Hafan. Am y flwyddyn ddiwethaf, rydym yn nodi bod yr elw wedi codi £112,000 gan roi cyfanswm o £875,000 y flwyddyn. Mae hyn yn cynrychioli elw o 56% ar y trosiant. O ganlyniad i'r perfformiad gwych hwn, ac rydym yn ymwybodol fod hyn wedi bod yn llawer gwell na'r hyn a ragwelodd Cyngor Gwynedd yn ei gyllidebau, mae *PMBHA* yn gofyn am beidio cynyddu ffioedd yr Hafan yn y cyfnod sydd i ddod. Mae *PMHA* yn nodi bod y perfformiad hwn yn sgil llai o bwysau chwyddiant economaidd na'r hyn a ragwelwyd, wedi'i gyplysu â mwy o incwm yn sgil cwsmeriaid yn gadael am resymau cysylltiedig i hyd y cwch a chodi tâl sefydlog am angorfeydd.

**2. Ffioedd angorfeydd wedi'u gwasanaethu i gael eu gostwng ar gyfer 2010/11**

Mae *PMBHA* yn nodi bod ffioedd angorfeydd wedi'u gwasanaethu wedi'u cynyddu 3% yn uwch na ffioedd angorfeydd heb eu gwasanaethu, a bod hyn yn weithredol eleni. Mae hyn wedi cynhyrchu incwm ychwanegol o £20,000+ ac mae hyn yn llawer mwy na'r gwir ffioedd trydan, a gynyddodd £5400 yn ystod y flwyddyn flaenorol, ac mewn gwirionedd, bydd ffioedd trydan yr Hafan yn gostwng eleni.

Gofynnir i ffioedd angorfeydd wedi'u gwasanaethu gael eu gostwng 3% eleni, er mwyn adlewyrchu'r adfer gormodol a wnaed o ran costau trydan.

**3. Data rhestr aros**

Dymuna *PMBHA* dderbyn gwybodaeth ynghylch y rhai ar y "Rhestr Aros" a wrthododd angorfeydd. Yn benodol:

- sawl cynnig am angorfa sydd wedi'i wrthod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac ar gyfer cwch o ba hyd.
- sawl angorfa sydd wedi'i hail-lesu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i'r rhai ar y "rhestr aros", ac ar gyfer cwch o ba hyd.
- sawl angorfa sydd wedi'i lesu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i'r rhai heb fod ar y "rhestr aros", ac ar gyfer cwch o ba hyd.
- beth yw'r cyfnodau amser byrraf, ac ail fyrraf, a dreuliwyd ar y "rhestr aros" y llynedd.

**4. Adran Trafnidiaeth – Côd Diogelwch Morol Porthladdoedd**

Mae *PMBHA* yn gofyn i Gyngor Gwynedd friffio'r pwyllgor o ran ei gyfrifoldebau dan y Côd, yn unol â'r penawdau a ganlyn:

- Rhwymedigaeth cyffredinol Cyngor Gwynedd dan y Côd Diogelwch Morol Porthladdoedd.
- Dyletswydd Gofal Cyngor Gwynedd yn erbyn colled a achoswyd yn sgil esgeulustod yr awdurdod dan y Côd Diogelwch Morol Porthladdoedd.
- Dyletswydd statudol swyddogion dan y Côd Diogelwch Morol Porthladdoedd.
- Yr angen i Gyngor Gwynedd gwblhau Asesiadau Risg rheolaidd.